

PRIFFYRDD, CYMRU

2015 Rhif 40

**DEDDF PRIFFYRDD 1980 a
DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU
(CEFNFFORDD ABERTAWE I
FANCEINION (YR A483) A
CHEFNFFORDD Y DRENEWYDD I
ABERYSTWYTH (YR A489) FFORDD
OSGOI'R DRENEWYDD) 2015**

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn y Gorchymyn hwn “yr awdurdod caffael”) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980⁽¹⁾ ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981⁽²⁾ a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, a phob pŵer galluogi arall⁽³⁾, drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros y tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 at ddibenion:

- (a) adeiladu cefnffyrdd newydd rhwng pwynt ar yr A489 bresennol, Ffordd Llanidloes, tua 480 metr i'r gorllewin o'r fynedfa i'r eiddo Glanhafren Hall i'r gorllewin o'r Drenewydd yng Nghymuned Mochdre gyda Phenystyrywaid a phwynt ar yr A483 bresennol tua 120 metr i'r gorllewin o'r fynedfa i'r eiddo Glan Afon i'r dwyrain o'r Drenewydd yng Nghymuned y Drenewydd a Llanllwchaearn, y ddau yn Sir Powys, yn unol â'r Gorchymyn Cefnffordd;
- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd rhwng pwynt ar yr A489 bresennol, Ffordd Llanidloes, tua 480 metr i'r gorllewin o'r fynedfa i'r eiddo Glanhafren Hall i'r gorllewin o'r Drenewydd a phwynt ar yr A483 bresennol tua 120 metr i'r gorllewin o'r fynedfa i'r eiddo Glan Afon i'r dwyrain

o'r Drenewydd, yn y Cymunedau a enwyd yn y Sir a enwyd, yn unol â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl;

- (c) gwella'r cefnffyrdd, yn y Cymunedau a enwyd yn y Sir a enwyd;
- (d) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r cefnffyrdd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod;
- (e) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad a'r cyfryw waith gwella priffyrdd a chyflawni unrhyw waith arall a grybwyllir uchod; ac
- (f) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar eu hamgylchoedd, a achosir gan fodolaeth unrhyw rai o'r priffyrdd y cynigir eu gwella, neu gan y defnydd ohonynt.

Mae copïau o'r Gorchymyn Cefnffordd a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r planiau cysylltiedig wedi'u hadneuo ynghyd â'r map y cyfeirir ato yn erthygl 5.

2. (1) Y tir yr awdurdodwyd ei brynu'n orfodol o dan y Gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ac amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ac ymyl coch ar y map a baratowyd ar ffurf ddyblyg, ac a farciwyd "Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (yr A489) Ffordd Osgoi'r Drenewydd) 2015".

(2) Disgrifir yr hawliau newydd sydd i'w prynu yn orfodol o dan y Gorchymyn hwn yn yr Atodlen, a dangosir y tir â lliw glas ac ymyl coch ar y map a enwyd.

3. Ymgorfforir drwy hyn Rannau II a III o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 yn y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau canlynol, sef bod rhaid dehongli cyfeiriadau at "the undertaking" yn y Rhannau hynny o'r Atodlen honno fel cyfeiriadau at y tir yr awdurdodir ei brynu ac at unrhyw adeiladau neu waith a adeiladwyd neu sydd i'w adeiladu

arno.

4. At ddibenion y darpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981, fel y'u hymgorfforir yn y Gorchymyn hwn, y pellter a ragnodir mewn perthynas ag unrhyw wythïen o fwynau sy'n gorwedd o dan y tir sy'n cyffinio â'r gwaith a adeiledir ar y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, fydd y pellter ochrol o'r gwaith hwnnw ar bob ochr i'r gwaith hwnnw ag y sy'n gymesur, ar bob pwynt ar hyd y gwaith hwnnw, â hanner dyfnder yr wythïen o dan wyneb naturiol y ddaear ar y pwynt hwnnw, neu 37 metr, pa un bynnag fo'r mwyaf.

5. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y map” (*“the map”*) yw'r map sydd wedi'i farcio “Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (yr A489) Ffordd Osgoi'r Drenewydd) 2015” ac wedi ei lofnodi gan swyddog o'r awdurdod caffael;

ystyr “y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl” (*“the Side Roads Order”*) yw “Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (yr A489) (Ffyrdd Ymyl Ffordd Osgoi'r Drenewydd) 2015”;

ystyr “y cefnffyrdd” (*“the trunk roads”*) yw Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (yr A489);

ystyr “y Gorchymyn Cefnffordd” (*“the Trunk Road Order”*) yw “Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (yr A489) (Ffordd Osgoi y Drenewydd a Thynnu Statws Cefnffordd) 2015”.

6. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (yr A489) Ffordd Osgoi'r Drenewydd) 2015.

Llofnodwyd gan swyddog Llywodraeth Cymru
ar ran Gweinidogion Cymru.

R Morgan

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Dyddiedig 16 Rhagfyr 2015

- (1) 1980 p.66
- (2) 1981 p.67
- (3) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL
GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD
ABERTAWA I FANCEINION (YR A483) A
CHEFNFFORDD Y DRENEWYDD I
ABERYSTWYTH (YR A489) FFORDD OSGOI'R
DRENEWYDD) 2015**

**PRYNU TIR A HAWLIAU NEWYDD YN
ORFODOL YN Y DRENEWYDD, POWYS**

Mae fod Gweinidogion Cymru, ar 16 Rhagfyr 2015, wedi gwneud 'Gorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (yr A489) Ffordd Osgoi'r Drenewydd) 2015', o dan adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac o dan adran 2 o Ddeddf Caffael Tir 1981, a pharagraff 1(1)(b), (3) a (4) o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Bydd y Gorchymyn yn awdurdodi Gweinidogion Cymru i brynu'n orfodol y tir a'r hawliau newydd dros y tir a ddisgrifir isod at ddibenion:-

- (a) adeiladu'r cefnffyrdd newydd yn y Drenewydd yng Nghymunedau Mochdre gyda Phenystyriwaid a'r

Drenewydd a Llanllwchaearn yn Sir Powys, yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (yr A489) (Ffordd Osgoi y Drenewydd a Thynnu Statws Cefnffordd) 2015;

- (b) adeiladu a gwella priffyrdd a darparu mynedfeydd newydd i fangreoedd yn y Drenewydd yn y Cymunedau a enwyd yn y Sir a enwyd, yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (yr A489) (Ffyrdd Ymyl Ffordd Osgoi y Drenewydd) 2015;
- (c) gwella'r cefnffyrdd, y Drenewydd yn y Cymunedau a enwyd yn y Sir a enwyd;
- (d) gwneud gwaith ar gyrsiau dŵr mewn cysylltiad ag adeiladu'r cefnffyrdd newydd ac adeiladu a gwella priffyrdd eraill a gwneud y gwaith arall a grybwyllwyd uchod;
- (e) eu defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad a'r cyfrywaith gwella priffyrdd a chyflawni unrhyw waith arall a grybwyllir uchod
- (f) lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar eu hamgylchoedd, a achosir gan fodolaeth unrhyw rai o'r priffyrdd y cynigir eu gwella, neu gan y defnydd ohonynt.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn fel y'i gwnaed a'r map sy'n gysylltiedig ag ef yn ystod ynryhw oriau resymol o 18 Rhagfyr 2015 a 29 Ionawr 2016 yn y manau canlynol:

- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ;
- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd, Powys SY16 1JB;
- Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG;
- Cyngor Sir Powys, Neuadd Maldwyn, Ffordd Hafren, Y Trallwng, Powys SY21 7AS, a
- Llyfrgell y Drenewydd, Stryd y Parc, Y Drenewydd, Powys SY16 1EJ.

Daw'r Gorchymyn I rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad hwn gyntaf.

Os bydd unrhyw un sydd wedi'i dramgwyddo gan y Gorchymyn Prynu Gorfodol am gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth ynddo ar y seiliau canlynol, sef:

a. nad oes pŵer o dan Ddeddf Caffael Tir 1981 nac unrhyw ddeddfiad o'r fath i awdurdodi'r pryniant gorfodol a ganiatawyd drwyddo fel y nodwyd yn adran 1(1) y Ddeddf; neu

b. na chydymffurfwyd â rhyw ofyniad perthnasol,

gall yr unigolyn hwnnw wneud cais i'r Uchel Lys ymhen 6 wythnos ar ôl iddo ddod yn weithredol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r hysbysiad cyhoeddus yn <http://gov.cymru> (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth' 'Ymylon Ffyrdd a Gorchymynion Prynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd', '2015').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

DISGRIFIAD O'R TIR AC O'R HAWLIAU NEWYDD

SYLWER: Dynodir y tir a gynhwysir ym mhob eitem isod ar y map y cyfeirir ato yn y Gorchymyn gan ddefnyddio'r rhif neu'r rhifau sydd gyferbyn â'r eitem honno isod.

YNG NGHYMUNED MOCHDRE GYDA PHENYSTRYWAID YN SIR POWYS

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A489 (Ffordd Llanidloes), llain ymyl, arglawdd a rhan o dir pori i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r gogledd-orllewin o Hafren View. (Plot 1/1)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A489 (Ffordd Llanidloes) a llain ymyl i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r gogledd-orllewin o Hafren View; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o arglawdd a glan afon (Afon Hafren) i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r gogledd-orllewin o Hafren View at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal arllwysfa draenio. (Plotiau 1/2 ac 1/2b)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A489 (Ffordd

Llanidloes), llain ymyl ac arglawdd i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r gogledd o Hafren View; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o gefnffordd yr A489 (Ffordd Llanidloes), llain ymyl ac arglawdd i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r gogledd o Hafren View at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o arglawdd i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r gogledd o Hafren View at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal arllwysfa draenio. (Plotiau 1/3, 1/3a, 1/3b, 1/3c ac 1/3d)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A489 (Ffordd Llanidloes), llain ymyl, cilfan, arglawdd, trac mynediad preifat yn arwain at Hafren View, ffosydd, tir pori a rhan o lwybr ceffylau BW251/16 gan gynnwys cebl uwchben i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r gorllewin o Barc Carafannau Glandulas; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r gorllewin o Barc Carafannau Glandulas at bob diben sy'n gysylltiedig â i) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd ii) adeiladu a chynnal pibell draenio. (Plotiau 1/4, 1/4a, 1/4b, 1/4c, 1/4d, 1/4e, 1/4f, 1/4g ac 1/4h)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A489 (Ffordd Llanidloes) a llain ymyl gan gynnwys cebl uwchben i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r gogledd-ddwyrain o Hafren View; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori a gwely a glan afon (Afon Hafren) i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r gogledd-ddwyrain o Hafren View at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal cwlfer, mur pen, ffos draenio ac arllwysfa; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r gogledd-ddwyrain o Hafren View at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal man storio i ymdopi â llifogydd gan gynnwys mynediad cerbydau. (Plotiau 1/5, 1/5a ac 1/5b)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A489 (Ffordd Llanidloes) gan gynnwys cebl uwchben i'r de ac i'r de-ddwyrain o Glanhafren Hall ac i'r gogledd ac i'r gogledd-ddwyrain o Barc Carafannau Glandulas; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir amaethyddol i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r gogledd-orllewin o Barc Carafannau Glandulas at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal pibell draenio; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir amaethyddol i'r de o Glanhafren Hall ac i'r gogledd o Barc Carafannau Glandulas at bob diben sy'n gysylltiedig â mynediad cerbydau. (Plotiau 1/6, 1/6a, 1/6b ac 1/6c)

Rhan o dir pori gan gynnwys cebl uwchben, rhan o lwybr ceffylau BW251/16 a rhan o lwybr troed cyhoeddus FP251/8 i'r de-orllewin o Glanhafren Hall ac i'r dwyrain o Hafren View. (Plotiau 1/7 ac 1/7a)

Rhan o barc carafannau, rhan o drac mynediad preifat yn y parc carafannau lleiniau carafannau, rhan o

lwybrau troed cyhoeddus FP251/7, FP251/8 ac FP251/9, rhan o lwybr ceffylau BW251/5, pontpren, pont, 'lawnt fowlio' a ffosydd gan gynnwys cebl uwchben i'r de ac i'r de-ddwyrain o Glanhafren Hall ac i'r dwyrain ac i'r de-ddwyrain o Hafren View. Yr hawl i fynd i mewn i rhan o barc carafannau gan gynnwys cebl uwchben a ran o lwybrau ceffylau BW251/5 i'r de-ddwyrain o Glanhafren Hall ac i'r dwyrain ac i'r gogledd-ddwyrain o Hafren View at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 1/8e, 1/8f, 1/8g, 1/8h, 1/8j, 1/8k, 1/8L, 1/8m, 1/8n, 1/8p, 1/8q, 1/8r, 1/8s, 1/8t, 1/8u, 1/8bb ac 1/8cc)

Rhan o dir fferm addysgol, rhan o lwybr troed cyhoeddus FP251/4, llwybr ceffylau BW251/5 a phwll dŵr gan gynnwys cebl uwchben i'r de o The Beeches ac i'r gogledd-orllewin o Bont Mochdre; Rhan o dir fferm addysgol i'r de-orllewin o The Beeches ac i'r de-ddwyrain o Barc Carafannau Glandulas; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir fferm addysgol i'r de o The Beeches ac i'r gogledd-orllewin o Bont Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 1/9a, 1/9b, 1/9c, 1/9d 1/9e, 1/9f, 1/9g, 1/9h, 1/9j, 1/9k ac 1/9L)

Rhan o dir fferm addysgol a rhan o lwybrau troed cyhoeddus FP251/3 ac FP251/4 a gwely a glan nant (Nant Mochdre) gan gynnwys cebl uwchben i'r de-ddwyrain o The Beeches ac i'r gogledd, i'r gogledd-orllewin ac i'r gogledd-ddwyrain o Bont Mochdre; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir fferm addysgol i'r de-ddwyrain o The Beeches ac i'r gogledd-orllewin o Bont Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir fferm addysgol a gwely a glan nant (Nant Mochdre) i'r de-ddwyrain o The Beeches ac i'r gogledd-ddwyrain o Bont Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) adeiladu a chynnal trosbont ii) adeiladu a chynnal pibell draenio, siambr ac arllwysfa. (Plotiau 1/10k, 1/10p, 1/10r, 1/10s, 1/10u, 1/10w, 1/10y, 1/10z, 1/10ccc, 1/10eee, 1/10www, 1/10xxx, 1/10yyy, 1/10zzz, 1/10aaaa, 1/10bbbb, 1/10dddd, 1/10eeee, 1/10ffff, 1/10gggg, 1/10LLLL, 1/10mmmm, 1/10nnnn, 1/10pppp ac 1/10qqqq)

Rhan o hanner lled a lled llawn cefnffordd yr A489 (Ffordd Llanidloes), lleiniau ymyl, argloddiau ffosydd, rhan o drac mynediad preifat yn arwain at Barc Carafannau Glandulas, The Beeches, Orchard Villa a Fferm Glandulas, grid gwartheg, rhan o dir amaethyddol, rhan o barc carafannau, rhan o lwybrau troed cyhoeddus FP251/7, FP251/8 ac FP251/9, rhan o lwybr ceffylau BW251/2 gan gynnwys cebl uwchben i'r de ac i'r de-ddwyrain o Glanhafren Hall ac i'r dwyrain ac i'r de-ddwyrain o Hafren View; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o barc carafannau i'r de-ddwyrain o Glanhafren Hall ac i'r dwyrain ac i'r gogledd-

ddwyrain o Hafren View at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 1/13, 1/13a, 1/13b, 1/13c, 1/13d, 1/13e, 1/13f, 1/13g, 1/13h, 1/13j ac 1/13k)

YNG NGHYMUNED Y DRENEWYDD A LLANLLWCHAEARN YN SIR POWYS

Rhan o dir fferm addysgol, coetir, trac mynediad preifat, trac, mynediad preifat o fewn tir fferm, trac mynediad preifat yn arwain at eiddo o'r enw Castell-y-dail, llain ymyl, ffosydd, rhan o lwybrau ceffylau BW253/N5 a BW253/N6 a rhan o lwybr troed cyhoeddus FP253/N4, trac a rhan o lwybr caniataol gan gynnwys cebl uwchben i'r dwyrain, i'r de-ddwyrain ac i'r gogledd-ddwyrain o Bont Mochdre ac i'r de-orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre; Rhan o dir fferm addysgol gan gynnwys cebl uwchben i'r de-ddwyrain o The Beeches ac i'r de-orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre; Rhan o dir fferm addysgol, rhan o hanner lled gwely a glan nant (Nant Mochdre), rhan o led llawn a hanner lled Lôn Mochdre, rhan o hanner lled trac yn arwain at Woodview, llain ymyl, arglawdd a rhan o lwybr troed cyhoeddus FP253/N7a gan gynnwys cebl uwchben i'r de-ddwyrain o The Beeches ac i'r de ac i'r gogledd-ddwyrain o Bont Mochdre; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o hanner lled trac yn arwain at Woodview, llain ymyl a rhan o dir fferm addysgol i'r de-ddwyrain o The Beeches ac i'r dwyrain o Bont Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal pibell draenio a siambr; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir fferm addysgol, rhan o hanner lled trac yn arwain at Woodview, llain ymyl a draen i'r de-ddwyrain o The Beeches ac i'r dwyrain ac i'r gogledd-ddwyrain o Bont Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o hanner lled trac yn arwain at Woodview a llain ymyl i'r de-ddwyrain o The Beeches ac i'r gogledd-ddwyrain o Bont Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd ii) adeiladu a chynnal trosbont; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir fferm addysgol i'r de-ddwyrain o The Beeches ac i'r dwyrain o Bont Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd ii) adeiladu a chynnal pibell draenio; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o wely a glan nant (Nant Mochdre) i'r de o The Beeches ac i'r de-orllewin o Bont Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal siambr arllwysfa draenio; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o wely a glan nant (Nant Mochdre), rhan o led llawn Lôn Mochdre, rhan o hanner lled trac yn arwain at Woodview a llain ymyl i'r de-ddwyrain o The Beeches ac i'r gogledd-ddwyrain o Bont Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal trosbont; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o hanner lled trac yn arwain at Woodview a llain ymyl i'r de-ddwyrain o Bont

Mochdre ac i'r de-orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal pibell draenio; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir fferm addysgol, rhan o lwybrau ceffylau BW253/N5 a BW253/N6 a trac i'r dwyrain ac i'r de-ddwyrain o Bont Mochdre ac i'r de-orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 1/10a, 1/10b, 1/10d, 1/10e, 1/10f, 1/10g, 1/10h, 1/10j, 1/10t, 1/10aa, 1/10bb, 1/10cc, 1/10dd, 1/10ee, 1/10ff, 1/10gg, 1/10hh, 1/10jj, 1/10kk, 1/10mm, 1/10nn, 1/10pp, 1/10qq, 1/10rr, 1/10ss, 1/10tt, 1/10uu, 1/10vv, 1/10ww, 1/10yy, 1/10zz, 1/10aaa, 1/10bbb, 1/10fff, 1/10ggg, 1/10hhh, 1/10kkk, 1/10LLL, 1/10mmm, 1/10nnn, 1/10qqq, 1/10rrr, 1/10sss, 1/10ttt, 1/10vvv, 1/10cccc, 1/10hhhh, 1/10jjjj, 1/10kkkk, 1/10rrrr, 1/10ssss, 1/10tttt, 1/11, 1/11a, 1/11b, 1/11d, 1/11e, 1/11f, 1/11g, 1/11h, 1/11j, 1/11k, 1/11m ac 1/11n)

Rhan o dir fferm addysgol, trac a ffos i'r dwyrain o Bont Mochdre ac i'r de-orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre. (Plotiau 1/12, 1/12a, 1/12b, 1/12c, 1/12d, 1/12e ac 1/12f)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor), dir amwynder/tir pori, ffos, Ffordd Meingefn Ystâd Ddiwydiannol Mochdre (Heol Ashley), llain ymyl, rhan o dramwyfa a gardd eiddo o'r enw Brondeg, rhan o hanner lled Ffordd Dolfor Uchaf, rhan o'r eiddo o'r enw Kinsale, gardd, man parcio, adeilad allanol a tir pori, gan gynnwys cebl uwchben i'r dwyrain a'r gogledd-ddwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gorllewin, i'r gogledd-orllewin a'r de-ddwyrain o Ashbrook. Rhan o goetir i'r gogledd-ddwyrain o Black Hall ac i'r de-orllewin o Ashbrook; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o hanner lled Ffordd Dolfor Ganol, eiddo o'r enw Kinsale, gardd, tramwyfa, man parcio, adeilad allanol, tir pori, gan gynnwys cebl uwchben i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de-ddwyrain o Ashbrook at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) adeiladu a chynnal trosbont ii) adeiladu a chynnal pibellau draenio a iii) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. Yr hawl i fynd i mewn i rhan o goetir i'r gogledd-ddwyrain o Black Hall ac i'r de-orllewin o Ashbrook at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd, ii) adeiladu a chynnal trosbont, iii) adeiladu a chynnal pibellau draenio; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o goetir, rhan o led llawn Ffordd Dolfor Ganol, cwlfer gan gynnwys cebl uwchben, adeilad allanol a gwely a glan nant, i'r gogledd-ddwyrain o Black Hall ac i'r de-orllewin o Ashbrook at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) adeiladu a chynnal trosbont ii) adeiladu a chynnal pibellau draenio. (Plotiau 2/1, 2/1a, 2/1b, 2/1d, 2/1e, 2/1g, 2/1h, 2/1j, 2/1k, 2/L, 2/1n, 2/p, 2/1q, 2/1r, 2/1s, 2/1t, 2/1u, 2/1v, 2/1w, 2/1x, 2/1y, 2/1z, 2/1aa, 2/1bb a 2/1cc)

Rhan o goetir masnachol a choetir amwynder a ffosydd i'r gogledd o goetir Castell-y-dail ac i'r de-orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o goetir masnachol a choetir amwynder a ffosydd i'r gogledd ac i'r gogledd-orllewin o goetir Castell-y-dail ac i'r de-orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 2/2, 2/2a, 2/2b, 2/2c a 2/2d)

Rhan o ardd eiddo o'r enw Castell-y-dail i'r gogledd-orllewin o goetir Castell-y-dail ac i'r de-orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o ardd eiddo o'r enw Castell-y-dail i'r gogledd-orllewin o goetir Castell-y-dail ac i'r de-orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 2/3 a 2/3b)

Rhan o dir fferm addysgol i'r gogledd ac i'r de-ddwyrain o goetir Castell-y-dail ac i'r de-orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir fferm addysgol i'r gogledd ac i'r gogledd-ddwyrain o goetir Castell-y-dail ac i'r de-orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir fferm addysgol i'r gogledd-ddwyrain o goetir Castell-y-dail ac i'r de-orllewin o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd ii) adeiladu a chynnal a sianel draenio. (Plotiau 2/4, 2/4a, 2/4b, 2/4d, 2/4e, 2/4f, 2/4g, 2/4j a 2/4k)

Rhan o lain ymyl i'r de o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd-ddwyrain o goetir Castell-y-dail. (Plotiau 2/5, 2/5a a 2/5b)

Rhan o dir pori a rhan o lwybr troed cyhoeddus FP253/N3 gan gynnwys cebl uwchben i'r de o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd-ddwyrain o goetir Castell-y-dail. (Plotiau 2/6 a 2/6a)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor), llain ymyl, tir pori, nant, ffos a rhan o lwybr troed cyhoeddus FP253/N3 gan gynnwys cebl uwchben i'r de ac i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd, i'r gorllewin, i'r gogledd-ddwyrain ac i'r gogledd-orllewin o Black Hall; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd-orllewin o Ashbrook at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori i'r de-ddwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r dwyrain o Black Hall at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de-orllewin o Ashbrook

at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. ii) adeiladu a chynnal trosbont. (Plotiau 2/7, 2/7a, 2/7b, 2/7c, 2/7d, 2/7e, 2/7f, 2/7g, 2/7h, 2/7j, 2/7k, 2/7L, 2/7m, 2/7n, 2/7p, 2/7q, 2/7r, 2/7s, 2/7t a 2/7u)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor), llain ymyl, tir pori gan gynnwys cebl uwchben a ffos i'r de o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd-orllewin o Black Hall; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o gefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor), llain ymyl rhan o a thir pori a ffos, gan gynnwys cebl uwchben i'r de o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd-orllewin o Black Hall at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 2/8, 2/8a, 2/8b, 2/8c, 2/8d, 2/8e, 2/8f, 2/8g a 2/8h)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor) a llain ymyl i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd-orllewin o Black Hall. (Plot 2/9)

Rhan o fynedfa breifat i Uned 84 Ystâd Ddiwydiannol Mochdre, llain ymyl, iard a man parcio i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gorllewin o Ashbrook. (Plotiau 2/10 a 2/10a)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor), rhan o Uned 85 Ystâd Ddiwydiannol Mochdre, rhan o fynedfa breifat i Uned 85 Ystâd Ddiwydiannol Mochdre, man parcio, llain ymyl a ffos i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gorllewin o Ashbrook. (Plotiau 2/11, 2/11a a 2/11b)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor), tir amwynder/tir pori, llain ymyl a ffos i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin o Ashbrook. (Plotiau 2/12, 2/12a, 2/12b a 2/12c)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor), llain ymyl, tir âr, trac mynediad a ffosydd i'r gogledd-ddwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd-orllewin o Ashbrook. (Plotiau 2/13, 2/13b a 2/13c)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor), llain ymyl a thir âr i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd-orllewin o Ashbrook. (Plot 2/14)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor) llain ymyl, ffos, arglawdd a dir amwynder/tir pori, gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd-ddwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd-orllewin o Ashbrook. (Plotiau 2/15, 2/15a a 2/15b)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd

Dolfor), llain ymyl a rhan o ardd eiddo o'r enw Harddfan gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd-ddwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd-orllewin o Ashbrook. (Plot 2/16)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor), rhan o hanner lled Ffordd Dolfor Ganol, llain ymyl a rhan o ardd yr eiddo o'r enw Ashbrook i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd o Ashbrook; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o goetir a gwely a glan nant i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de-orllewin o Ashbrook at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal trosbont. (Plotiau 2/17 a 2/17a)

Rhan o goetir i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de-orllewin o Ashbrook; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o goetir i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de-orllewin o Ashbrook at bob diben sy'n gysylltiedig ag i) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. ii) adeiladu a chynnal trosbont. (Plotiau anhysbys 2/18, 2/18a a 2/18b)

Rhan o goetir a gwely a glan nant i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de, ac i'r de-orllewin o Ashbrook. Yr hawl i fynd i mewn i rhan o hanner lled Ffordd Dolfor Ganol, eiddo o'r enw Kinsale, gardd, tramwyfa, man parcio, adeilad allanol, tir pori, coetir a gwely a glannau nant gan gynnwys cebl uwchben i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de, de-ddwyrain ac i'r de-orllewin o Ashbrook at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) adeiladu a chynnal trosbont ii) adeiladu a chynnal pibellau draenio; iii) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 2/20, 2/20a, 2/20d, 2/20e, 2/20f, 2/20g a 2/20h)

Rhan o fan parcio i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de o Ashbrook; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o hanner lled Ffordd Dolfor Ganol, gwely a glannau nant a man parcio i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de o Ashbrook at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) adeiladu a chynnal trosbont ii) adeiladu a chynnal pibellau draenio; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o hanner lled Ffordd Dolfor Ganol, man parcio a chwlfert i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de-ddwyrain o Ashbrook at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal trosbont. (Plotiau 2/21, 2/21a, 2/21b a 2/21c)

Rhan o hanner lled Ffordd Dolfor Uchaf a gardd eiddo o'r enw White House gan gynnwys cebl uwchben i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de-ddwyrain o Ashbrook. (Plot 2/22)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Dolfor), rhan o hanner lled Ffordd Dolfor Ganol, rhan o hanner lled Ffordd Dolfor Uchaf, llain ymyl, gardd a

rhan o fynedfa breifat Kinsale a Cil Haul, a thir pori gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd ac i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd ac i'r dwyrain o Ashbrook; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o hanner lled Ffordd Dolfor Ganol a mynedfa breifat i'r eiddo o'r enw Kinsale a Cil Haul i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de-ddwyrain o Ashbrook at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal trosbont; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori gan gynnwys cebl uwchben i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r gogledd-ddwyrain o Black Hall at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd ii) adeiladu a chynnal trosbont. (Plotiau 2/23, 2/23a, 2/23b a 2/23e)

Rhan o goetir a gwely a glan nant i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de o Ashbrook; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o goetir a gwely a glannau nant i'r dwyrain o Ystâd Ddiwydiannol Mochdre ac i'r de o Ashbrook at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) adeiladu a chynnal trosbont ii) adeiladu a chynnal pibellau draenio. (Plotiau 2/24, 2/24a, 2/24b a 2/24c)

Rhan o hanner lled Ffordd Dolfor Uchaf a gardd eiddo o'r enw Sunridge i'r de-ddwyrain o Garth Owen ac i'r de-orllewin o Bryneira. (Plot 3/1)

Rhan o hanner lled Ffordd Dolfor Uchaf, tir pori gan gynnwys cebl uwchben a ffos i'r de-ddwyrain o Garth Owen ac i'r gorllewin ac i'r de-orllewin o Bryneira; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori a ffos gan gynnwys cebl uwchben i'r dwyrain ac i'r de-ddwyrain o Garth Owen ac i'r gogledd, i'r gorllewin ac i'r de-orllewin o Bryneira at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 3/2, 3/2a, 3/2b, 3/2c, 3/2d, 3/2e, 3/2f, 3/2g, 3/2h, 3/2j, 3/2k a 3/2L)

Rhan o dir pori i'r gogledd-ddwyrain o Bryneira ac i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin o Fferm Upper Brimmon; Rhan o drac yn arwain at Fferm Upper Brimmon, rhan o hanner lled Lôn Brimmon, rhan o lwybr troed cyhoeddus FP253/N14, llain ymyl a thir pori gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd-ddwyrain o Bryneira ac i'r gogledd, i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin o Fferm Great Brimmon; Rhan o hanner lled a led llawn Lôn Brimmon, lleiniau ymyl, rhan o hanner lled yr A489 (Ffordd Ceri), rhan o hanner lled y lôn yn arwain at The Birches, rhan o draciau, ffosydd a thir pori gan gynnwys cebl uwchben a rhan o lwybr ceffylau BW253/N15 i'r gogledd o Fferm Great Brimmon ac i'r de ac i'r de-orllewin o Wood Green; Rhan o dir pori i'r de-ddwyrain o Wood Green ac i'r gogledd-orllewin o Lower Brimmon. Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori i'r gogledd ac i'r gogledd-ddwyrain o Bryneira ac i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin o Fferm Upper Brimmon at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol

ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori, trac a ffosydd gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd-ddwyrain o Fferm Great Brimmon ac i'r de ac i'r de-ddwyrain o Wood Green at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o hanner lled yr A489 (Ffordd Ceri) a thir pori i'r de-ddwyrain o Wood Green ac i'r de ac i'r gogledd-orllewin o Lower Brimmon at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori i'r gogledd-ddwyrain o Bryneira ac i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin o Fferm Great Brimmon at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd ii) adeiladu a chynnal pibell arllwysfa draenio; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori, trac yn arwain at Fferm Upper Brimmon, llain ymyl a rhan o lwybr troed cyhoeddus FP253/N14 i'r gogledd-ddwyrain o Bryneira ac i'r gogledd-orllewin o Fferm Great Brimmon at bob diben sy'n gysylltiedig â mynediad er mwyn adeiladu a chynnal tanffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori i'r gogledd-ddwyrain o Bryneira ac i'r gogledd-orllewin o Fferm Great Brimmon at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) mynediad er mwyn adeiladu a chynnal tanffordd ii) gwyro dros dro y trac yn arwain at Fferm Upper Brimmon wrth i'r danffordd newydd gael ei hadeiladu iii) mynediad i bwll arafu; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori i'r gogledd-ddwyrain o Bryneira ac i'r gogledd-orllewin o Fferm Great Brimmon at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) mynediad er mwyn adeiladu a chynnal tanffordd ii) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 3/3, 3/3c, 3/3d, 3/3g, 3/3j, 3/3L, 3/3p, 3/3q, 3/3r, 3/3s, 3/3t, 3/3u, 3/3v, 3/3w, 3/3x, 3/3y, 3/3z, 3/3aa, 3/3bb, 3/3cc, 3/3dd, 3/3ee, 3/3gg, 3/3hh, 3/3kk, 3/3LL, 3/3mm, 3/3pp, 3/3qq, 3/3rr, 3/3ss, 3/3tt, 3/3uu, 3/3ww, 3/3xx, 3/3yy, 3/3aaa, 3/3bbb, 3/3ccc, 3/3ddd, 3/3eee, 3/3fff, 3/3ggg, 3/3hhh, 3/3jjj, 3/3kkk, 3/3LLL, 3/3mmm, 3/3nnn, 3/3ppp, 3/3qqq, 3/3rrr, 3/3sss, 3/3ttt, 3/3uuu a 3/3vvv)

Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori a ffos i'r gogledd-ddwyrain o Bryneira ac i'r gogledd-orllewin o Fferm Great Brimmon at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal pibell arllwysfa draenio; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori a thrac yn arwain at Fferm Upper Brimmon, llain ymyl gan gynnwys cebl uwchben a rhan o lwybr troed cyhoeddus FP253/N14 i'r gogledd-ddwyrain o Bryneira ac i'r gogledd-orllewin o Fferm Great Brimmon at bob diben sy'n gysylltiedig â mynediad er mwyn adeiladu a chynnal tanffordd. (Plotiau 3/4 a 3/4a)

Rhan o hanner lled Lôn Brimmon a llain ymyl gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd-ddwyrain o Fferm Upper Brimmon ac i'r gogledd o Fferm Great Brimmon. (Plot 3/5)

Rhan o hanner lled yr A489 (Ffordd Ceri) a rhan o hanner lled y lôn yn arwain at The Birches gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd-ddwyrain o The Birches ac i'r de-ddwyrain o Lower Brimmon. (Plot 3/6)

Rhan o dir pori i'r gogledd ac i'r gogledd-ddwyrain o Bryneira ac i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin o Fferm Upper Brimmon. Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori i'r gogledd-ddwyrain o Bryneira ac i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin o Fferm Upper Brimmon at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 3/7, 3/7a, 3/7b, 3/7c, a 3/7d)

Rhan o hanner lled yr A489 (Ffordd Ceri), rhan o led llawn Lôn Wern Ddu, lleiniau ymyl, tir pori, pwll, rhan o lwybr troed cyhoeddus FP253/N22 gan gynnwys cebl uwchben, ffosydd ac adeiladau allanol i'r gogledd, i'r gogledd-ddwyrain ac i'r de-ddwyrain o Lower Brimmon ac i'r gorllewin, i'r gogledd, i'r gogledd-orllewin ac i'r de-orllewin o Tyn-y-green; Rhan o dir pori i'r gogledd-orllewin o Tyn-y-green ac i'r gorllewin o Pengelli; Rhan o hanner lled yr A489 (Ffordd Ceri), llain ymyl a buarth gan gynnwys cebl uwchben i'r de-ddwyrain o Wood Green ac i'r de-orllewin o Tyn-y-green; Rhan o dir pori, rhan o hanner lled Lôn Wern Ddu a llain ymyl i'r gogledd ac i'r gogledd-orllewin o Lower Brimmon ac i'r dwyrain ac i'r gogledd-ddwyrain o Wood Green; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o hanner lled yr A489 (Ffordd Ceri), llain ymyl, tir pori a rhan o lwybr troed cyhoeddus FP253/N22 i'r gogledd ac i'r gogledd-orllewin o Lower Brimmon ac i'r dwyrain o Wood Green at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o hanner lled yr A489 (Ffordd Ceri) llain ymyl a thir pori i'r dwyrain ac i'r de-ddwyrain o Wood Green ac i'r de-orllewin o Tyn-y-green at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori a rhan o lwybr troed cyhoeddus FP253/N22 gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd ac i'r gogledd-ddwyrain o Lower Brimmon ac i'r dwyrain, i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin o Tyn-y-green at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i rhan o dir pori i'r de-ddwyrain o Wood Green ac i'r de-orllewin o Tyn-y-green at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd ii) gosod a chynnal sianel draenio; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori a ffos i'r de-ddwyrain o Wood Green ac i'r de-orllewin o Tyn-y-green at bob diben sy'n gysylltiedig ag: i) gosod a chynnal sianel draenio ii) glanhau, lledu a dyfnhau ffos bresennol. (Plotiau 4/1, 4/1b, 4/1c, 4/1d, 4/1e, 4/1f, 4/1g, 4/1h, 4/1j, 4/1k, 4/1L, 4/1m, 4/1n, 4/1p, 4/1q, 4/1r, 4/1s, 4/1t, 4/1u, 4/1v, 4/1w, 4/1x, 4/1y, 4/1z, 4/1aa, 4/1bb, 4/1cc, 4/1dd, 4/1ee, 4/1gg,

4/1hh, 4/1qq a 4/1rr)

Rhan o dir pori a phwll dŵr gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd, i'r gogledd-ddwyrain ac i'r gogledd-orllewin o Tyn-y-green ac i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin o Pengelli; Rhan o dir pori i'r gogledd-ddwyrain o Tyn-y-green ac i'r de-orllewin o Gelli; Rhan o hanner lled a led llawn cefnffordd yr A483 (Ffordd Pool), llain ymyl, tir pori gan gynnwys cebl uwchben, trac yn arwain at groesfan lefel, hanner gwely a glan ffos a sied storio/ysgubor i'r gorllewin, i'r gogledd, i'r gogledd-ddwyrain ac i'r gogledd-orllewin o Gelli ac i'r de, i'r dwyrain, i'r de-ddwyrain ac i'r de-orllewin o The Gables; Rhan o dir pori gan gynnwys cebl uwchben a rhan o groesfan lefel i'r gogledd, i'r gogledd-ddwyrain ac i'r gogledd-orllewin o Pengelli ac i'r de-orllewin o The Gables; Rhan o dir pori i'r gogledd o Lower Brimmon ac i'r gorllewin o Pengelli; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori i'r gogledd, i'r gogledd-ddwyrain ac i'r gogledd-orllewin o Tyn-y-green ac i'r gorllewin ac i'r gogledd-orllewin o Pengelli at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori a hanner gwely a glan ffos i'r gogledd-ddwyrain o Pengelli ac i'r de-orllewin o The Gables at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd-ddwyrain o Gelli ac i'r de-ddwyrain o The Gables at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori a hanner gwely a glan ffos i'r gogledd-ddwyrain o Pengelli ac i'r de-orllewin o The Gables at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal ac arllwysfa cwlferf; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori, trac a ffos i'r gogledd-orllewin o Gelli ac i'r de-orllewin o The Gables at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal pibell arllwysfa draenio; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori i'r dwyrain o The Gables ac i'r de o waith trin carthion at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal pibell arllwysfa draenio. (Plotiau 4/2, 4/2a, 4/2b, 4/2d, 4/2e, 4/2f, 4/2g, 4/2h, 4/2j, 4/2L, 4/2m, 4/2n, 4/2p, 4/2q, 4/2r, 4/2s, 4/2u, 4/2v, 4/2w, 4/2x, 4/2y, 4/2z, 4/2aa, 4/2bb, 4/2cc, 4/2dd, 4/2ee, 4/2ff, 4/2LL, 4/2mm, 4/2nn, 4/2pp a 4/2qq)

Rhan o dir rheilffordd a chroesfan lefel i'r gogledd ac i'r gogledd-ddwyrain o Pengelli ac i'r de-orllewin o Gelli; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir rheilffordd i'r i'r gogledd, i'r gogledd-ddwyrain ac i'r gogledd-orllewin o Pengelli ac i'r de-orllewin o Gelli at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir rheilffordd gan gynnwys prif reilffordd Aberystwyth i Amwythig (Rheilffordd Cambria) i'r gogledd o Pengelli ac i'r de-orllewin o Gelli at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal trosbont. (Plotiau 4/3, 4/3a, 4/3b, 4/3c, 4/3d,

4/3e a 4/3f)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Pool), llain ymyl, rhan o hanner lled gwely a glan ffos, eiddo o'r enw Gelli, gerddi ac adeiladau allanol gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd-ddwyrain o Pengelli ac i'r de o The Gables. Yr hawl i fynd i mewn i rhan o gerddi ac adeiladau allanol gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd-ddwyrain o Pengelli ac i'r de o The Gables at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 4/4a, 4/4b, 4/4c a 4/4d)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Pool) a thrac mynediad preifat yn arwain at Gelli, tir i'r de o'r rheilffordd ac yn gyfagos â hi, ran o drac mynediad preifat yn arwain at dir i'r de o'r rheilffordd ac yn gyfagos â hi, a llain ymyl gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd-ddwyrain o Pengelli ac i'r de o The Gables. (Plotiau 4/5, 4/5a, 4/5b a 4/5c)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Pool), trac mynediad preifat yn arwain at eiddo o'r enw Hazeldene, Avondale, Melstone, The Gables a Glan-Hafren a llain ymyl gan gynnwys cebl uwchben i'r gogledd-ddwyrain o Pengelli ac i'r de-orllewin o The Gables. (Plotiau 4/7, 4/7a, 4/7b, 4/7c a 4/7d)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Pool), tir pori gan gynnwys cebl uwchben a llain ymyl i'r dwyrain ac i'r de-ddwyrain o Gelli ac i'r de ac i'r de-ddwyrain o The Gables; rhan o dir pori i'r gogledd-ddwyrain o Pengelli ac i'r de-orllewin o The Gables; Yr hawl i fynd i mewn i rhan o dir pori gan gynnwys cebl uwchben i'r dwyrain o Gelli ac i'r de-ddwyrain o The Gables at bob diben sy'n gysylltiedig ag adeiladu a chynnal ffensys amgylcheddol ar ffin y briffordd. (Plotiau 4/8, 4/8a, 4/8b a 4/8c)

Rhan o hanner lled cefnffordd yr A483 (Ffordd Pool) a llain ymyl i'r gogledd-ddwyrain o Gelli ac i'r de-orllewin o waith trin carthion. (Plot 4/9)

Yr hawl i fynd i mewn i rhan o goetir a rhan o hanner gwely a glan nant i'r gogledd-ddwyrain o Gelli ac i'r de o waith trin carthion at bob diben sy'n gysylltiedig â gosod a chynnal pibell arllwysfa draenio a siambr. (Plot 4/10)

Rhan o ardd eiddo o'r enw Hazeldene i'r gogledd-orllewin o Gelli ac i'r de-orllewin o The Gables. (Plotiau 4/11 a 4/11a)

M D Burnell

M D BURNELL

Trafnidiaeth

Llywodraeth Cymru